

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Medi 3ydd 2013

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Ian Trow, Beryl Hughes Griffiths, Catrin Roberts, Dewi Jones, Karl Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts

Alan Evans (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Gwestai: S Catrin Jones (Menter a Busnes)

1190 Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Arwel Lloyd Jones a Huw Roberts. Llongyfarchwyd Rhodri Jones ar ei ddyweddiad a'r Clerc am gymryd at glercio yn Y Bala. Roedd y Ceidwaid Chwarae wedi gohirio eu cyflwyniad tan y cyfarfod nesaf.

Croesawyd hefyd Catrin Jones a roddodd gyflwyniad ar ddatblygiadau yn yr Henblas. Amlinellodd y gwaith mawr sydd wedi ei gyflawni yn ennill y grant o £100,000 a £25,000 o arian cyfatebol i uwchraddio'r Henblas, gan gychwyn ar y llawr isaf. Mae'r gwaith arolwg cymunedol, astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes wedi ei gwblhau a'i gymeradwyo, ac mae'r briff wedi ei roi i'r syrfêwr. Disgwylir i'r gwaith ar y llawr isaf gychwyn yn fuan gyda dyddiad gorffen yn Chwefror. Bydd y Swyddog Marchnata yn cychwyn ar ei gwaith yn yr Hydref. Mae cyfrifoldeb yn awr ar y Cynghorau ym Mhenllyn i gefnogi'r gwaith ac mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn eisoes wedi cytuno i gefnogi yn ôl y fformiwla poblogaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Bartneriaeth Penllyn; bydd hyn yn cyfateb i ymrwymiad cefnogaeth y Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i Catrin Jones ac i Lindsey Edwards am ei gwaith gwerthfawr yn cefnogi'r fenter, a diolchodd hefyd i'r Cynghorwyr Sir lleol am eu cefnogaeth hwythau.

1191 Derbyniwyd datganiad buddiant gan y Cadeirydd ym mater y Llwybr beicio (1195.1.v)

1192 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1193 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2il 2013

1194 **Materion yn codi o gofnodion Gorffennaf:**

- i. **1176.i Toiledau:** derbyniwyd neges o Gyngor Gwynedd fod mater gwerthu'r toiledau i'r Cyngor Cymuned ar y gweill. Gofynnwyd i'r Swyddogion baratoi arwydd mwy parhaol yn y toiledau i annog cyfraniadau ariannol. Cytunodd Dewi Jones, y Swyddog Ariannol a'r Clerc i gadw agoriad yr un.
- ii. **1176.ii Y fynwent** – trefnir cyfarfod o'r is-bwyllgor yn ystod y mis; gwnaethpwyd 5 copi o gynllun y fynwent er mwyn diogelwch a chytunwyd i uwchraddio'r wybodaeth fel bo'r angen. Cytunwyd i dderbyn y cynnig gwreiddiol am baentio'r ffens.
- iii. **1180.iii Fflatiau:** Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod gyda Chymdeithas Tai Clwyd ar 16/7/13 a derbyniwyd Cofnodion o gyfarfod gyda Rhys Jones, Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar 25/7/13. Roedd y Cynghorydd Sir hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Arweinydd portffolio a Swyddogion Cyngor Gwynedd, ac wedi gohebu gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd, yn arbennig yng nglyn â newid y system bwyntiau. Roedd o'r farn fod y Swyddogion yn rhoi sylw haeddiannol i'r gofidiau lleol erbyn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Alan Evans am ei waith.

- iv. *1186* – Bydd yr arwydd wrth gulfan bws wrth yr Hen Felin yn cael ei leoli mewn gwell safle.
- v. *1186 i* - Derbyniwyd gwybodaeth bellach am gofeb yng ngwlad Belg i anrhydeddu milwyr o Gymru a gofynnwyd i'r Clerc i holi maint cyfraniadau Cyngorau tebyg at y Gofeb. Mae croeso i unrhyw unigolyn hefyd i gyfrannu i gofio am y Cymry a gollwyd yn y Rhyfel Mawr a gellir cysylltu gyda'r Clerc neu aelodau'r Cyngor am fwy o fanylion.

1195 **Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Cadarnhawyd cymeradwyo ceisiadau Gwernhefin a Derwen Deg yn ystod yr haf.
- ii. Ystyriwyd dau gais ôl gweithredol Ty'n ffridd . Cytunwyd i anfon at Parc Cenedlaethol Eryri i ddweud nad oes gan y Cyngor sylwadau pellach i'w gwneud ar y ddau gais.
- iii. Cytunwyd i gymeradwyo cais NP5/71/LB43D – Prys Mawr
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i Vodaphone yn Drws Nant
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i'r Llwybr Beicio

2 Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gau'r ffordd o 9.30 - 1.30 oherwydd treiathlon 8/6/13. Bydd sylw yn cael ei wneud am faint o amser y bydd y ffordd ar gau eleni er mwyn cynnal trafodaeth digon buan ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymddeoliad I G Thomas ac am ddyletswyddau'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Cytunwyd i ysgrifennu i ddiolch i Mr Thomas am ei waith; bydd colled ar ei ôl gan fod ganddo adnabyddiaeth fanwl iawn o'r ardal
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am amserlen Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am grant i sefydlu presenoldeb ar y we (dyddiad cau 20/9/13). Cytunwyd y byddai'n fuddiol i gynghorau Penllyn i wneud ceisiadau unigol ac i gyd-weithio i gynnal gwefan dda rhwng y 5 ym Mhenllyn.

3 Heddlu:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrch yn erbyn dreifio dan ddylanwad alcohol / cyffuriau (e-bostiwyd i'r aelodau)
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrch yn erbyn dwyn ffonau symudol (e-bostiwyd i'r aelodau)

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

4 Llywodraeth Cymru:

- i. Nodwyd Ymgynghoriad Trac 9 (e-bostiwyd i'r aelodau)
- ii. Nodwyd gwybodaeth oddi wrth Tîm Mapio Mynediad Agored (e-bostiwyd i'r aelodau)
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am grant i frechu moch daear (e-bostiwyd i'r aelodau)
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am newidiadau i'r hawliau datblygu sydd gan ddeiliaid tai (e-bostiwyd i'r aelodau)

5 Un Llais Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant i Glercod gan Dilys Phillips yn Nolgellau 9/10/13 . Bydd y Clerc yn mynychu.
- ii. Nodwyd gwybodaeth am gynhadledd i glercod 18/9/13 yn Llandudno
- iii. Nodwyd gwybodaeth am seminar gan Zurich (Caerdydd) 23/10/13
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ddyfarniad Cyflogau Clercod 2013-14 a rhoddwyd y mater i'w ystyried gan yr is-bwyllgor Cyllid.

6 Eraill:

- i. Nodwyd gwahoddiad gan Dŵr Cymru i fynegi barn ac ennill i-pad (e-bostiwyd)
- ii. Nodwyd gwahoddiad gan Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Gogledd Cymru i fod yn aelod (e-bostiwyd) ac anogwyd unigolion i wirfoddoli.
- iii. Cytunwyd i ymaelodi â Chynghrair Cymunedau Cymraeg
- iv. Nodwyd datganiad gan Age Cymru ar droseddwr yn twyllo pobol hŷn
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am gysylltiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Pobol Hŷn (e-bostiwyd)
- vi. Derbyniwyd copi o *Chwarae dros Gymru*
- vii. Derbyniwyd pamffled am offer chwarae a nodwyd ymateb y Clerc.
- viii. Rhoddwyd ystyriaeth i ohebiaeth am y gwaith adeiladu yn Ysgol O M Edwards. Nid oedd gan y Cyngor Cymuned ddim i'w ychwanegu at ymateb G Owen (Gofal Cwsmer) ar ran Cyngor Gwynedd. Cytunodd Karl Jones, Alwyn Roberts ac Alan Evans ystyried safle ar gyfer gosod lloches bws newydd i ddisgyblion Ysgol y Berwyn ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

1196 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth ar lafar am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cymeradwywyd arwyddo ffurflen Hacker Young.
- iii. Rhoddwyd ystyriaeth i dderbyniadau a chytunwyd i daliadau'r mis.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1197 Materion lleol

- i. Cytunwyd i roi mater croesawu Eisteddfod yr Urdd 2014 ar agenda'r mis nesaf.
- ii. Trafodwyd mater atal troseddau yn yr ardal a diolchwyd i'r heddlu am eu presenoldeb mynych yn y pentref, ac i drigolion am eu parodrwydd i fod o gymorth i'r heddlu.
- iii. Cytunwyd i roi mater cadw dogfennau'r Cyngor yn ddiogel ar agenda'r cyfarfod nesaf.
- iv. Ystyriwyd cwynion am oryrru rhwng yr Eglwys â'r ysgol, goryrru wrth Stryd Dŵr ac ar hyd y darn dan gyfyngiad ar yr A494, a'r angen am arwydd wrth fynedfa Tyddyn Felin, a chytunwyd i ofyn am gyfarfod gyda Dylan Wyn Jones ac i dynnu sylw'r Heddlu at y problemau hyn.
- v. Cytunwyd i dynnu sylw Liz Haines at ddiogelwch pont droed y Deildre i blant bach.

Amser gorffen: 10.15pm